

Datganiad newyddion

Dyddiad: 27 Gorffennaf 2018

Teitl: Boddhad myfyrwyr yng Nghymru yn 2018

Yn gyffredinol, mae boddhad myfyrwyr is-raddedigmewn prifysgolion a cholegau yng Nghymru'n parhau'n uchel, gyda 85% o fyfyrwyr yn dweud eu bod yn fodlon â'u cwrs, sy'n welliant ar ganlyniadau'r llynedd ac unwaith eto ychydig ar y blaen i'r DU yn gyffredinol.

Yn 2018, ymatebodd 73% o fyfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru i'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r lefelau boddhad yn narparwyr addysg uwch Cymru'n gadarn, gyda'r sector yn dangos llwyddiant arbennig mewn asesu ac adborth, cymorth academaidd a 'llais y myfyriwr'. Mae'r arolwg yn gyfle i sefydliadau bwysu a mesur y meysydd efallai sydd angen rhagor o sylw ond mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod sefydliadau'n parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran sicrhau bod y profiad i fyfyrwyr yng Nghymru'n rhoi cymaint o foddhad â phosib.

"Rydyn ni'n siarad yn aml am y pwyslais sy'n cael ei roi gan ddarparwyr ar welliant parhaus a gwella amgylcheddau dysgu, ac rydyn ni wedi adrodd yn ddiweddar bod prifysgolion yng Cymru wedi cofrestru gyda phrosiect Learning Analytics Cymru Jisc. Bydd hwn yn dadansoddi data myfyrwyr i helpu i wella cefnogaeth, fel bod myfyrwyr yn deall eu hanghenion dysgu eu hunain ac yn nodi meysydd i'w gwella, gan brofi gwell canlyniadau dysgu yn eu tro.

“Rydyn ni’n gobeithio y bydd y darparwyr yn dathlu’r llwyddiannau niferus a hefyd yn parhau i fynd i’r afael â’r meysydd sydd angen eu cryfhau ymhellach.”

Dywedodd Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru, Amanda Wilkinson: “Mae canlyniadau’r ACF eleni’n dyst i’r gwaith caled mae prifysgolion Cymru’n parhau i’w wneud er mwyn sicrhau’r profiad dysgu gorau posib i fyfyrwyr. Mae prifysgolion Cymru wir yn gweld y myfyrwyr fel partneriaid gweithredol yn eu haddysg ac rydyn ni’n credu bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau eleni, gyda gwell lefelau boddhad cyffredinol.

“Mae Prifysgolion yng Nghymru wedi ymrwmo i adeiladu ar y canlyniadau hyn, gan greu dysgu ac addysgu rhagorol i’r holl fyfyrwyr mewn partneriaeth â hwy, dim ots beth yw eu dull, lleoliad neu gyflymder o ran astudio.”

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2018: Data cymharol ar gyfer pob categori yn yr arolwg (AU ac AB yn gyfun)

Cwestiynau		2017 y DU % Bodlon	2017 Cymru % Bodlon	2018 y DU % Bodlon	2018 Cymru % Bodlon
1-4	Yr addysgu ar fy nghwrs	85	84	84	85
5-7	Cyfleoedd dysgu	84	83	83	83
8-11	Asesu ac adborth	73	74	73	75
12-14	Cymorth academiaidd	80	81	80	82
15-17	Trefn a rheolaeth	75	76	75	75

Cwestiynau		2017 y DU % Bodlon	2017 Cymru % Bodlon	2018 y DU % Bodlon	2018 Cymru % Bodlon
18-20	Adnoddau dysgu	85	85	85	86
21-22	Cymuned sy'n dysgu	77	78	77	78
23-25	Llais y myfyriwr	73	75	73	76
26	Undeb y Myfyrwyr	57	59	56	58
27	Bodlonrwydd cyffredinol	84	84	83	85
28-33	Lleoliadau ymarferol gyda'r GIG	87	86	87	86

* Cyfrifir y canran sy'n fodlon drwy gyfuno ymatebion 'cytuno'n gryf' a 'chytuno'n bennaf'.

Daw canlyniadau'r ACF ddeufis ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Bwriadau Ar Ôl Graddio wedi'i ailwampio, sy'n gofyn i israddedigion yn eu blwyddyn olaf am eu cynlluniau ar gyfer beth fyddant yn ei wneud ar ôl graddio, gan gynnwys eu cynlluniau ar gyfer astudiaethau ôl-radd. Atodwyd yr arolwg ar-lein dewisol hwn wrth ddiwedd yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Diwedd

Nodiadau:

1. Mae'r ACF yn cynnwys mwyafrif yr israddedigion yn eu blwyddyn olaf sy'n astudio am gymwysterau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch y DU,

ac mewn colegau addysg bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cyllidir yr arolwg, sy'n cael ei gynnal gan IPSOS Mori, gan y pedwar corff cyllido/rheoleiddio addysg uwch yn y DU (CCAUC, Office for Students, Cyngor Cyllido'r Alban a'r Adran ar gyfer yr Economi yng Ngogledd Iwerddon), a Health Education England.

2. Mae'r canlyniadau ar gael ar wefan Office for Students www.officeforstudents.org.uk/.
3. Y trothwy ar gyfer cyhoeddi ar lefel sefydliad yw bod o leiaf 10 myfyriwr wedi ymateb, a dylai'r rhain gynrychioli o leiaf hanner y myfyrwyr sy'n gymwys i gymryd rhan.
4. Am y tro cyntaf, mae ymatebion ar lefel sefydliad ar gyfer y 27 o gwestiynau wedi cael eu meincnodi. Cyhoeddir data wedi'u meincnodi ar gyfer canlyniadau 2017 a 2018.
5. Bydd gwefan Unistats yn cael ei diweddarau gyda chanlyniadau ACF 2018 ar 30 Awst. Unistats yw'r safle swyddogol ar gyfer chwilio am ddata a'u cymharu â data eraill, ac i gael gwybodaeth am gyrsiau prifysgol a choleg ledled y DU. Mae'r safle'n dod â gwybodaeth gymharol at ei gilydd am y meysydd hynny mae myfyrwyr wedi'u datgan fel rhai pwysig wrth wneud penderfyniadau am beth a ble i astudio.
6. Mae'r data boddhad myfyrwyr ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y Brifysgol Agored (ond ledled y DU maent wedi'u rhestru fel 'England HEI').

Cyswllt

Emma Raczka, Uwch Reolwr Cyfathrebu, 029 2085 9667,
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.